**CYNGOR SIR PENFRO**

**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (CYDGRYNHOI) 2011 (AMRYWIAD RHIF 31) 2025**

---

Rhoddir HYSBYSIAD drwy hyn bod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu gwneud Gorchymyn wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1,2,4,32,35,45,46,49,53,101,102,124 a rhan IV Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd, darpariaethau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 2004 ("Deddf 2004"), a'r holl bwerau galluogi eraill.

Bydd y gorchymyn yn diwygio ymhellach Orchymyn 2011 Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) ac amserlenni a geir o'i fewn ac amrywiadau dilynol.

Effaith y cynigion fydd cyflwyno cyfyngiadau aros newydd a/neu ddiwygio a/neu ddirymu rhai cyfredol ar y rhannau o'r ffyrdd a bennir yn yr atodlen i'r hysbysiad hwn.

Gallwch weld copi o'r gorchymyn drafft ynghyd â chynlluniau sy'n dangos lleoliadau'r cyfyngiadau a datganiad o'r rhesymau dros gynnig cyflwyno'r gorchymyn ar-lein yn www.sir-benfro.gov.uk

Os dymunwch wrthwynebu'r gorchymyn arfaethedig dylech anfon sail eich gwrthwynebiad yn ysgrifenedig at y sawl sydd wedi llofnodi isod neu drwy e-bost at TROcomments@pembrokeshire.gov.uk erbyn 16eg diwrnod o Gorffennaf 2025.

Dyddiedig 25ain y diwrnod hwn o Mehefin 2025

Sarah Edwards
Pennaeth Seilwaith Dros Dro a'r Amgylchedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd

**ATODLEN**

**1. Hwlffordd**

**1.1 Dim aros ar unrhyw adeg**

**Teras Stepney, Prendergast**

Ochr ddwyreiniol – o bwynt 16 metr i'r de o wal dalcen rhif 1 Teras Stepney, i'r de am 12 metr.

**2 Johnston**

**2.1 Dileu'r gwaharddiad rhag stopio ar farciau YSGOL CADWCH YN GLIR rhwng dydd Llun a dydd Gwener, 8am hyd 5pm**

**Parc Cranham**

Ochr orllewinol – o bwynt dau fetr i'r gogledd o brif fynedfa'r ysgol, i'r gogledd ac yna i'r gorllewin am 31.5 metr.

**3. Maenorbŷr**

**3.1 Dim aros rhwng 9am a 7pm rhwng 1 Mai a 15 Medi**

**Ffordd yr arfordir (U6338)**

Ochr ddeheuol – o bwynt 310 metr i'r gogledd-orllewin o ben gorllewinol y cilfan i'r gogledd-orllewin am 215 metr pellach (yn ymestyn y cyfyngiad presennol)

**4. Aberdaugleddau**

**4.1 Dim aros ar unrhyw adeg**

**Heol Warwick**

Y ddwy ochr – o'r gyffordd â Great North Road tua'r gorllewin am hyd o 10 metr
Ochr ogleddol – o ganol Brook Avenue tua'r dwyrain am hyd o 10 metr.
(proses weinyddol i reoleiddio'r llinellau presennol).

**5. Arberth**

**5.1 Dim aros ar unrhyw adeg**

**Halkon Crescent**

Ochr ogleddol, orllewinol a ddeheuol – o ffin eiddo rhif 22/23 Halkon Crescent o amgylch y man troi i bwynt yn union gyferbyn â ffin eiddo rhif 22/23 Halkon Crescent

**5.2 Cael gwared ar y gilfach parcio ar gyfer pobl anabl**

**St James Street**

Ochr ogleddol – o bwynt un metr i'r dwyrain o wyneb gorllewinol yr hen lyfrgell tua'r dwyrain am naw metr.

## 6. Saundersfoot (Llanusyllt)

### 6.1 Cilfach ar gyfer tacsis

**Ffordd y B4316 o Pentlepoir i Saundersfoot (Llanusyllt)**

Ochr ogleddol – o bwynt chwe metr i’r dwyrain o faes parcio’r orsaf drenau tua’r dwyrain am 25 metr

**CYNGOR SIR PENFRO**
**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (CYDGRYNHOI) 2011 (AMRYWIAD RHIF 31) 2025**

---

Mae Cyngor Sir Penfro ("y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 49, 53, 101, 102 a 124 a rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd, darpariaethau Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a holl bwerau galluogi eraill y Ddeddf, ac ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Heddlu yn unol â rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, trwy hyn yn gwneud y gorchymyn canlynol:-

1. Daw'r gorchymyn hwn i rym ar y … diwrnod o …. 2025 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2011 (Amrywiad Rhif 31) 2025.

2. Mae Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2011 ("y Gorchymyn Cydgrynhoi"), gan gynnwys yr atodlenni ynddo a'r amrywiadau dilynol, trwy hyn wedi'i amrywio neu ei ddiwygio fel a ganlyn:-

**1) <u>Diwygio Atodlen 2</u>**

**<u>(a) Yn Atodlen 2.1, rhodder:-</u>**

**Hwlffordd**

**Teras Stepney, Prendergast**

Ochr ddwyreiniol – o bwynt 16 metr i'r de o wal dalcen rhif 1 Teras Stepney, i'r de am 12 metr.

**Aberdaugleddau**

**Heol Warwick**

Ochr ogleddol – o ganol Brook Avenue tua'r dwyrain am hyd o 10 metr.

**Arberth**

**Halkon Crescent**

Ochr ogleddol, gorllewinol a deheuol – O ffin rhifau 22/23 Halkon Crescent o amgylch y man troi i bwynt yn union gyferbyn â ffin rhif 22/23 Halkon Crescent.

**(b) Diwygir Atodlen 2.1 i'r gorchymyn fel a ganlyn:-**

**Aberdaugleddau**

**Heol Warwick**, yn lle paragraff sy'n ymwneud â'r ddwy ochr, rhodder:

Y ddwy ochr – o'r gyffordd â Great North Road tua'r gorllewin am hyd o 10 metr.

**(c) Diwygir Atodlen 2.13 i'r gorchymyn fel a ganlyn:-**

**Maenorbŷr**

**Ffordd yr U6338 yn arwain i'r traeth**, yn lle paragraff sy'n ymwneud â'r ochr ddeheuol, rhodder:

b) o ben gorllewinol y cilfannau / lleoedd parcio am bellter o 525 metr i bwynt ger mynedfeydd giât y fferm y tu hwnt i Atlantic View.

**2) Diwygio Atodlen 4**

**(a) Diwygir Atodlen 4.4 i'r gorchymyn fel a ganlyn:-**

**Arberth**

**Stryd Sant Iago,** ochr ogleddol - mae paragraff wedi'i ddileu.

**3) Diwygio Atodlen 6**

**(a) Yn Atodlen 6.1, rhodder:-**

**Ffordd y B4316 o Pentlepoir i Saundersfoot (Llanusyllt)**

Ochr ogleddol

O bwynt 6 metr i'r dwyrain o fynedfa maes parcio'r orsaf drenau tua'r dwyrain am 25 metr.

**4) Diwygio Atodlen 9**

**(a) Caiff Atodlen 9.1 ei diwygio fel a ganlyn:-**

**Johnston**

**9.1.10**

**Parc Cranham**, ochr orllewinol – mae paragraff wedi'i ddileu.

**RHODDWYD** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y …..diwrnod hwn o ……., Dwy Fil a Phump ar Hugain.

**AT HYN GOSODWYD SÊL GYFFREDIN**
**CYNGOR SIR PENFRO**
ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig

**GORCHYMYN CYNGOR SIR PENFRO (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (CYDGRYNHOI) 2011 (AMRYWIAD RHIF 31) 2025**


**Datganiad o'r Rhesymau**

Mae'r cynigion i gyflwyno neu i ddiwygio cyfyngiadau parcio ar y stryd fel y nodwyd yn y gorchymyn drafft a atodwyd yn cael eu hyrwyddo fel rhan o adolygiad parhaus y cyngor o ddarpariaeth parcio ar y stryd ar rwydwaith ffyrdd y sir.

Nod y cynigion yw sicrhau bod cyfyngiadau cyfredol yn briodol ar gyfer lleoliad, a bod materion a nodir drwy sylwadau cyhoeddus a chymunedol yn cael eu hystyried a'u gweithredu lle y bo'n gyfiawn. Mae'r cyfyngiadau diwygiedig hefyd yn adlewyrchu newidiadau i'r briffordd ac yn sicrhau y gall cerddwyr a thraffig cerbydol symud yn ddiogel.

Crynodeb o'r rhesymau dros y cynigion fel y'u nodwyd yn y gorchymyn drafft –

| Cyf dogfen | Lleoliad | Cynnig | Rheswm dros y cais |
|---|---|---|---|
| **Var 31.1** | **Teras Stepney, Prendergast, Hwlffordd** | **Dim aros ar unrhyw adeg - gwaharddiad** | **Dileu problemau gwelededd mewn cysylltiad â gwaith priffyrdd** |
| **Var 31.2** | **Parc Cranham, Johnston** | **Tynnu marciau Ysgol cadwch yn glir** | **Nid oes angen llinellau mwyach gan fod yr ysgol wedi'i dymchwel ar gyfer tai** |
| **Var 31.3** | **Ffordd yr arfordir (U6338), Maenorbŷr** | **Tymhorol Dim aros rhwng 9am a 7pm rhwng 1 Mai a 15 Medi** | **Ymestyn y cyfyngiad presennol i gael gwared ar barcio anystyriol ar ymylon y ffordd** |
| **Var 31.4** | **Heol Warwick, Aberdaugleddau** | **Dim aros ar unrhyw adeg - gwaharddiad** | **Proses weinyddol i gywiro gorchymyn traffig trwy beintio marciau ar y safle** |
| **Var 31.5** | **Halkon Crescent, Arberth** | **Dim aros ar unrhyw adeg - gwaharddiad** | **I gael gwared ar barcio anystyriol o amgylch y man troi** |
| **Var 31.6** | **Stryd St James, Arberth** | **Tynnu bae anabl** | **Deparu parcio ychwanegol gan fod y Llyfrgell bellach wedi cau** |
| **Var 31.7** | **Ffordd y B4316 o Pentlepoir i Saundersfoot (Llanusyllt)** | **Cilfan i dacsis** | **Gosod cilfan i dacsis y tu allan i orsaf drenau Saundersfoot** |





Pembrokeshire County Council
Directorate of Transportation & Environment
County Hall
Haverfordwest
SA61 1TP

Proposed no waiting at any time
(Double yellow lines)
Stepney Terrace, Prendergast, Haverfordwest

| Scale: | Date: |
|---|---|

Reproduced from the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. Crown Copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Pembrokeshire CC - Licence Number 100023344.


**ParkMap Version 7.6**




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
WILL BRAMBLE CBE
Chief Executive / Prif Weithredwr
DARREN THOMAS
Head of Infrastructure
Pennaeth Isadeiledd
Pembrokeshire County Council, County Hall, HAVERFORDWEST, Pembrokeshire, SA61 1TP
Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, HWLFFORDD, Sir Benfro, SA61 1TP

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 1000 |
| DATE | 10/03/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
WILL BRAMBLE CBE.
Chief Executive / Prif Weithredwr
DARREN THOMAS
Head of Infrastructure
Pennaeth Isadeiledd
Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP
Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Proposed seasonal waiting restrictions
Manorbier

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 1500 |
| DATE | 10/04/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |
| | |




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
WILL BRAMBLE CBE.
*Chief Executive / Prif Weithredwr*

DARREN THOMAS
*Head of Infrastructure*
*Pennaeth Isadeiledd*


Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Warwick Road

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 400 |
| DATE | 22/04/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |
| | |




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro


WILL BRAMBLE CBE.
Chief Executive / Prif Weithredwr

DARREN THOMAS
Head of Infrastructure
Pennaeth Isadeiledd

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP


Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP



© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025


Proposed no waiting at any time (double yellow lines
Halkon Crescent, Narberth

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 500 |
| DATE | 10/04/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |
| | |




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
WILL BRAMBLE CBE.
*Chief Executive / Prif Weithredwr*

DARREN THOMAS
*Head of Infrastructure*
*Pennaeth Isadeiledd*

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP


Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

Waiting restriction proposal
Removal of disabled bay outside former library

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 750 |
| DATE | 10/04/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |
| | |

**ParkMap Version 7.6**




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
WILL BRAMBLE CBE.
*Chief Executive / Prif Weithredwr*

DARREN THOMAS
*Head of Infrastructure*
*Pennaeth Isadeiledd*

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 1540 |
| DATE | 10/03/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |
| | |